**LC1282**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru

## (Swyddogaethau Ychwanegol) (Diwygio) 2006

Mae'r Gorchymyn yma yn diwygio Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) 2000 ("Gorchymyn 2000"). Mae Gorchymyn 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ("y Cyngor") gadw cofnodion mewn perthynas â chategorïau penodedig o bersonau. Mae'r Gorchymyn yn ychwanegu at y categorïau hynny bersonau nad ydyn nhw'n gymwys i'w cofrestru am nad yw'r Cyngor yn fodlon eu bod yn addas i fod yn athrawon.

Mae'r Rheoliadau'n cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Deddfau o dan Reol Sefydlog 24.27(iii) cyn cael eu hystyried yn y Cyfarfod Llawn ar 16 Mai 2006.

### Rheol Sefydlog 11.7

Cafodd y Cynghorwyr Cyfreithiol gyfle i ystyried drafft cynharach o'r Gorchymyn yma. Oherwydd hynny, mae pwyntiau a allai fod wedi bod yn destun adroddiad wedi'u cymryd i ystyriaeth yn y drafft cyfredol a does dim pwyntiau wedi'u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

### Sylwadau

Dim.

**David Melding AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**9 Mai 2006**